Cyflymu Busnesau Cymru



# Sut i dyfu eich busnes

Busnes Cymru
Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Defnyddio rhithwireddu ar draws TG i ehangu eich busnes heb fynd i gostau mawr . . . . . . . . . . 4

Sut gall offer cydweithredu helpu i ehangu eich busnes . . . . . . . . . . 5

Cydnabod buddiannau'r cwmwl . . . . . . . . . . 6

Archwilio sut gall gweithio'n hyblyg arwain at fusnes effeithlon sy'n ehangu . . . . . . . . . . 6

Datblygu eiriolaeth brand ar draws rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol . . . . . . . . . . 7

Manteisio ar botensial apiau . . . . . . . . . . 8

Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu . . . . . . . . . . 8

Manteisio ar gyfleoedd masnach symudol newydd . . . . . . . . . . 9

Rhoi llawer iawn o bwyslais ar gysylltiadau â chwsmeriaid . . . . . . . . . . 10

Integreiddio eich marchnata digidol . . . . . . . . . . 11

Manylion cyswllt . . . . . . . . . . 12



# Sut i dyfu eich busnes

Dylai ehangu eich busnes drwy ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd neu symud i sectorau marchnad newydd gael blaenoriaeth gan holl berchnogion busnesau bach.

Mae gan fusnesau llewyrchus fap ffordd sy'n diffinio'n glir sut bydd eu mentrau yn esblygu yn y dyfodol.

Bydd y canllaw hwn yn edrych ar sut gallwch ddefnyddio band eang cyflym iawn i helpu i sicrhau bod eich busnes yn parhau'n gynaliadwy, yn berthnasol ac yn broffidiol.

# Defnyddio rhithwireddu ar draws TG i ehangu eich busnes heb fynd i gostau mawr



Mae TG yn aml wrth wraidd busnesau bach. Mae gallu ehangu'r systemau technegol hyn heb fynd i gostau mawr yn rhywbeth allweddol i nifer o berchnogion busnesau bach. Pan gaiff ei ddefnyddio gydag isadeileddau TG yn seiliedig ar weinydd, gall rhithwireddu ehangu eich busnes yn y byd go iawn heb gynyddu costau. Mae prynu gweinyddwyr newydd i'ch busnes yn ymarfer drud. Efallai y bydd angen y rhain arnoch i gefnogi'r cynlluniau i ehangu sydd gennych chi mewn golwg ar gyfer eich cwmni.

Fodd bynnag, gall creu peiriannau rhithwir mewn seilwaith gweinyddol sydd eisoes yn bodoli ddarparu'r gallu gweinyddol ychwanegol heb fod angen rhagor o fuddsoddiad ariannol. Ymhellach, gall peiriannau rhithwir weithredu ar lefelau llawer uwch o allu ac effeithlonrwydd na dim ond prynu caledwedd gweinyddwr newydd. Dysgwch ragor o wybodaeth am Feddalwedd fel Gwasanaeth (SaaS).



# Sut gall offer cydweithredu helpu i ehangu eich busnes

Er mwyn tyfu eich busnes, mae angen sicrhau fod pawb yn gweithio mor effeithlon ag y bo modd. Mae symud y data sy'n cael ei greu, ei storio, ei drin a'i rannu o seilos caeedig ac i mewn i offer cydweithio yn galluogi unrhyw fusnes i weithio'n fwy craff a datblygu'n gyflymach.

Mae offer cydweithio o'r fath, gan gynnwys byrddau gwyn digidol, cymwysiadau swyddfa drwy gwmwl a chyfathrebu unedig gyda fideo-gynadledda wrth wraidd hynny, i gyd yn cynnig cyfle i dimau i weithio'n agosach a mwy cynhyrchiol gyda'i gilydd. Darllenwch y canllaw'n llawn ar dechnegau cydweithredu.

# Cydnabod buddiannau'r cwmwl



Mae'r cwmwl yn cynnig amgylchedd datblygu cyfoethog sy'n cynnwys yr holl offer y bydd unrhyw fusnes bach ei angen i ehangu heb fynd i gostau mawr. Mae egwyddorion SaaS (Meddalwedd fel Gwasanaeth) bellach wedi cael eu cymhwyso i holl brosesau busnes, o gyfrifeg i farchnata. Mae defnyddio'r cwmwl fel partner gwasanaethau yn galluogi busnesau bach yn enwedig i gystadlu ar lefel llawer uwch na'u statws. Darllenwch ragor am symud i feddalwedd yn seiliedig ar gwmwl.

# Archwilio sut gall gweithio'n hyblyg arwain at fusnes effeithlon sy'n ehangu

Gyda dyfodiad uwch dechnolegau digidol symudol, sy'n gallu cysylltu'n ddi-dor ag offer cydweithio drwy gwmwl, mae gweithio hyblyg erbyn hyn yn ffordd o gyfeirio at fusnesau sydd eisiau ehangu a dod yn arweinwyr yn eu sector yn y farchnad.

Gan ddefnyddio cyfrifiaduron tabled a ffonau clyfar, gall mentrau bach elwa o fanteision gweithlu sy'n gallu cael ei gwasgaru dros ardaloedd daearyddol eang, ond eto weithio'n effeithlon gyda'i gilydd. Gall gweithio hyblyg sy'n cael ei sefydlu a'i gynnal gyda lefelau uchel o ddiogelwch ddod yn wahaniaethydd enfawr rhwng busnesau bach sy'n awyddus i arloesi ac ehangu, a'r busnesau hynny sy'n glynu wrth arferion gweithio traddodiadol. Darllenwch ragor am weithio hyblyg.







# Datblygu eiriolaeth brand ar draws rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol

Mae busnesau bach yn ôl eu natur yn fentrau ystwyth. Mae manteisio ar y cyfleoedd masnachol helaeth y mae rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol yn eu cynnig yn hanfodol i ehangiad a phroffidioldeb parhaus.

Dylid rhoi lle canolog i gyfryngau cymdeithasol yn unrhyw fusnes sy'n tyfu ac ehangu. Gan fod y rhwydweithiau hyn yn cyffwrdd â phob agwedd ar eich busnes - dim un yn fwy, felly, na gwasanaethau cwsmeriaid – fe allan nhw ddod yn gyfryngau masnachol newydd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Ar ben hynny, mae defnyddwyr eisiau symud yn nes at y busnesau y mae ganddyn nhw berthynas â nhw.

Mae gwasanaethau cwsmeriaid cyflym ac effeithlon yn awr yn wahaniaethydd mawr yn y farchnad. Bydd eich busnes yn gweld manteision enfawr drwy ymrwymo adnoddau yn awr i ddatblygu'r cyfryngau cymdeithasol hyn, a fydd yn tyfu o ran pwysigrwydd, wrth i fusnesau cymdeithasol ddod yn norm. Darllenwch ragor am sut y gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn eich busnes.

# Manteisio ar botensial apiau





Gyda'r cynnydd mewn ffonau clyfar a chyfrifiaduron tabled, mae'r app wedi dod yn ffordd gyffredin i fusnesau gyrraedd eu cwsmeriaid symudol.

Wrth i'r ecosystem apiau barhau i ddatblygu ac ehangu, mae nifer y gwasanaethau sydd ar gael yn awr yn enfawr. Gall defnyddio app i atgyfnerthu cysylltiadau â chwsmeriaid presennol fod yn bwerus, ond mae defnyddio apiau ar gyfer darparu gwasanaeth neu gynnyrch newydd yn manteisio ar yr economi apiau gyfan, gyda chwsmeriaid yn barod ac yn aros i brynu. Darllenwch ragor am ddatblygu apiau ar gyfer eich busnes.

# Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu

Gall arloesi ddod o ysbrydoliaeth, ond i lawer o fusnesau, bydd proses ymchwil a datblygu wedi'i strwythuro yn golygu llif cyson o gynhyrchion newydd. Roedd ymchwil a datblygu yn arfer bod yn faes a oedd yn perthyn i gwmnïau mwy yn unig, ond gall hyd yn oed micro fentrau gael eu llwyfannau ymchwil a datblygu eu hunain erbyn hyn.





Mae colegau a phrifysgolion bellach yn mynd ati i ffurfio partneriaethau â busnesau o bob maint i ddatblygu'r cynnyrch arloesol nesaf. Gan rannu'r gost yn aml, gall busnesau bach sy'n ehangu fanteisio ar gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd sy'n debygol o fod dafliad carreg oddi wrthyn nhw.

# Manteisio ar gyfleoedd masnach symudol newydd



Nid dim ond rhoi gwefan eich cwmni ar ffonau symudol a thabledi yw masnach symudol (m-fasnach), mae'n newid y ffordd y mae busnesau yn esblygu, gyda phwyntiau cyffwrdd symudol yn dod yn gyfrwng digyffelyb i gyrraedd cwsmeriaid presennol a newydd.

Gall busnesau bach drosoli'r pŵer y mae dyfeisiau symudol yn ei roi yn nwylo defnyddwyr i ehangu eu gweithrediadau a chysylltu â'u cwsmeriaid pan fyddan nhw eisiau prynu. Mae busnesau sy'n ehangu heddiw yn cynnwys m-fasnach yn eu cynlluniau datblygu.

# Rhoi llawer iawn o bwyslais ar gysylltiadau â chwsmeriaid



Mae CRM (Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid) wedi cael ei drawsnewid diolch i gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, wrth i systemau CRM symud i'r cwmwl, gall hyd yn oed y fenter leiaf ddefnyddio offer proffesiynol erbyn hyn i greu cysylltiadau dyfnach a hirach gyda'u cwsmeriaid.

Mae gwasanaethau cwsmeriaid yn golygu mwy na dim ond ymdrin â chwynion neu ymholiadau. Mae angen i fusnesau sy'n ehangu sicrhau y gall eu CRM ehangu gyda nhw i sicrhau lefelau uchel o wasanaethau cwsmeriaid, a bod y teimlad positif a ddaw yn sgil hyn yn cael ei gynnal.

Mae defnyddio llwyfannau CRM drwy gwmwl yn rhoi'r hyblygrwydd y mae busnesau bach sy'n ehangu ei angen i addasu maint eu gweithrediadau, ac eto gynnal y cysylltiadau personol hynny sydd mor bwysig yn nhirwedd fasnachol yr oes sydd ohoni. Mae rhoi sylw i CRM eich cwmni yn fater hanfodol i bob cwmni sy'n ehangu. Darllenwch ragor am ddatblygu'ch CRM.



# Integreiddio eich marchnata digidol

Daw pŵer marchnata digidol o'i allu i anfon yr un neges at gynulleidfa sy'n aros drwy nifer o gyfryngau ar yr un pryd. Mae defnyddio'r cyfryngau digidol hyn i ehangu busnes bach yn golygu deall sut gellir defnyddio'r cyfryngau gwahanol hyn gyda'i gilydd.

Mae gan fusnesau deallus gynllun marchnata clir ar gyfer pob cam maen nhw eisiau eu cymryd i hyrwyddo cynnyrch newydd, er enghraifft. Cymerwch amser i ddeall eich cynulleidfa a'r cyfryngau sydd orau ganddyn nhw. Gall negeseuon marchnata penodol iawn, sy'n defnyddio'r mecanwaith darparu cywir, helpu unrhyw fusnes i ehangu ei gyfran o'r farchnad. Darllenwch ragor am sut i greu'ch strategaeth marchnata digidol eich hun.

## Crynodeb

**Mae angen i bob busnes bach ehangu er mwyn parhau'n hanfodol yn eu sectorau marchnad. Mae angen i'ch cynlluniau ehangu i fod yn amlweddog a diffinio eich nodau ehangu yn glir. Ni ddylai gwerthfawrogiad y gynulleidfa a'r gweddnewidiad mewn cysylltiadau â chwsmeriaid gael eu diystyru. Bydd busnesau bach a all drosoli ac integreiddio sawl menter ehangu fod yn arweinwyr yn eu diwydiannau.**

# Cyflymu Busnesau Cymru

I ategu'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru, gallwch gael cyngor ar beth allwch ei wneud unwaith y bydd ar gael i chi, a beth allwch ei wneud yn y cyfamser, i sicrhau bod eich busnes yn cael y mwyaf o fand eang cyflym iawn.

- Tyfu eich busnes
- Cynyddu effeithlonrwydd
- Hybu cynhyrchiant
- Gostwng eich costau

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho i lawr eich Canllawiau 'Sut i...' YN RHAD AC AM DDIM, ewch i:

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

Ffôn: 03000 6 03000

Cadwch yn gyfredol – dilynwch ni ar:

Busnes Cymru Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government